

Cynllun gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2013

Cynllun gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru

Cynulleidfa

Pob aelod o staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid ac athrawon.

Trosolwg

Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i ddatblygu er mwyn canolbwyntio ar weithredu amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n ymdrin â datblygu canllawiau cyflwyno i'r ysgol, canllawiau rheoli perfformiad a chyfleoedd i wella datblygiad dysgu proffesiynol yn y tymor byr. Yn y tymor hirach, caiff gwaith ei wneud ar osod safonau a lefelau cymhwyster perthnasol. Mae'r cynllun gweithredu hwn hefyd yn trafod y cyfleoedd i gynnwys rhai o'r gweithgareddau hyn mewn deddfwriaeth fel rhan o Fil Addysg (Cymru) 2013.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygiad Proffesiynol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: supportstaffenquiries@cymru.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn dysgu.cymru.gov.uk

Cynnwys

Cefndir	2
Ymrwymiad cyffredinol	3
Nod y cynllun gweithredu	4
Cynllun gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion	5

Cefndir

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rôl staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru wedi cael ei datblygu a'i hehangu, i raddau helaeth yn sgil rhoi darpariaethau *Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith: Cytundeb Cenedlaethol* ar waith, ond hefyd o ganlyniad i fentrau i wella'r ddarpariaeth o ran addysg y blynyddoedd cynnar. Mae lleoli staff cymorth mewn rolau newydd a mwy wedi bod yn hollbwysig i sicrhau newid mewn diwylliant o ran y ffordd y trefnir gweithlu ysgolion ac wedi bod yn ffactor allweddol yn yr ymgyrch i godi safonau drwy ddarparu addysgu o safon uchel.

O ganlyniad, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y staff cymorth sy'n gweithio mewn ysgolion ac maent bellach i gyfrif am oddeutu 44 y cant o'r holl weithlu mewn ysgolion. Er bod y mwyafrif o staff cymorth yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth yn cefnogi athrawon a gweithio'n uniongyrchol â dysgwyr, mae llawer yn gweithio mewn rolau cefnogi eraill y mae ysgolion yn dibynnu arnynt i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei gweinyddu'n effeithiol ac fel bod modd rhyddhau athrawon a phenaethiaid i ganolbwyntio ar eu pwrpas craidd, sef rhoi gwasanaeth addysgu a dysgu o safon uchel.

Ymrwymiad cyffredinol

O ganlyniad uniongyrchol i'r datblygiadau hyn, mae'n hanfodol bod yr holl staff cymorth mewn ysgolion yn gallu cael gafael ar hyfforddiant a chefnogaeth briodol, gan gynnwys llwybrau dilyniant. Mae'n hanfodol hefyd bod cymwysterau hyfforddiant cychwynnol a chymwysterau pellach dilynol yn addas i'r diben, er mwyn sicrhau bod gennym weithlu medrus sy'n gallu cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol drwy ddiwallu anghenion ysgolion a'u dysgwyr.

Mae angen cefnogi'r gwaith o wreiddio prosesau ac arferion cyson ar gyfer yr holl staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru. Rhaid i'r cysondeb cenedlaethol hwn ganolbwyntio ar safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sydd, gyda'i gilydd, a chan weithio mewn ffordd glir a chyfannol, yn rhoi sail gadarn i'r strwythur cenedlaethol ar gyfer ein holl staff cymorth. Rydym yn cyfeirio at y ddarpariaeth integredig drwy'r broses Ymarfer, Adolygu a Datblygu.

Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yng nghyd-destun llywodraeth leol yn parhau i fod yn uniongyrchol gyfrifol am delerau ac amodau staff cymorth, fel mae'r gwaith mewn perthynas â'r adolygiadau o gyflog statws sengl sydd ar y gweill ganddynt ar hyn o bryd yn dangos.

Nod y cynllun gweithredu

Mae'r cynllun gweithredu yn nodi nifer o gamau gweithredu. Cyflawnir rhai o'r rhain yn uniongyrchol gan bartneriaid allweddol yng nghyswllt gweithgareddau datblygu, a bydd eraill, sy'n ymwneud â hyfforddiant a chefnogaeth, yn cael eu darparu'n uniongyrchol i staff cymorth fel rhan o raglenni eraill a gaiff eu darparu gan Lywodraeth Cymru neu gan bartneriaid allanol.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, a fydd, gyda'i gilydd, yn darparu'r sylfaen ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad cyffredinol i staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru, ac yn creu'r gallu i ddarparu gweithlu hynod fedrus i holl ysgolion Cymru.

Cynllun gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion

Mater dan sylw	Cam gweithredu
<p>Cymwysterau/Safonau Proffesiynol</p> <p>Ar hyn o bryd yng Nghymru, nid oes gennym ofynion penodol o safbwynt y cymwysterau sy'n ofynnol i gyflawni amrywiol rolau ar gyfer yr holl aelodau o staff cymorth mewn ysgolion, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal prosiect ar y cyd ag undebau a chyflogwyr i ystyried beth ddylid ei gynnwys mewn cymwysterau ar gyfer staff addysgu a dysgu sy'n gweithio ar wahanol lefelau yn yr ystafell ddosbarth.</p> <p>Cysylltir y gwaith hwn â'r dasg o ystyried pa safonau galwedigaethol a/neu broffesiynol ddylai fod yn berthnasol ar bob lefel a'r ystod o gymwysterau sydd ar gael i'r aelodau hyn o staff ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd angen i'r gwaith hwn ystyried proffiliau swyddi presennol y Cydgyngor Cenedlaethol yn ogystal â thystiolaeth berthnasol arall (adroddiadau ac ymchwil) gan gynnwys safonau presennol Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU). Nod y gwaith fydd creu continwmm a fydd yn galluogi staff cymorth sydd am wneud hynny i ddilyn llwybr clir tuag at ddatblygu eu gyrfa ac i wneud dewisiadau gwybodus o ran y cymwysterau a'r datblygiad proffesiynol sy'n diwallu eu hanghenion orau.</p> <p>Bydd angen i'r prosiect hwn ystyried a yw'n ddymunol i gyflwyno gofynion sylfaenol o ran cymwysterau ar gyfer staff cymorth sy'n gweithio mewn rolau penodol ac, os felly, a fyddai angen cyflwyno gofynion o'r fath yn raddol. Lle bod gofyn i ymarferwyr wella lefel eu cymwysterau, ystyrir sut gellid darparu hyn i'r staff hynny sydd eisoes mewn swydd.</p> <p>Amserlen: Ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gyfrwng grŵp cyfeirio er mwyn trafod cynigion ar gyfer cynnwys y cymwysterau yn y dyfodol a chyhoeddi adroddiad erbyn mis Mawrth 2014.</p> <p>Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried, a gwneir penderfyniad ynghylch y camau nesaf, gan gynnwys sut yr eir ati i gynnal ymgynghoriad ehangach ar y cynigion ym mis Mai 2014.</p> <p>Gweithredu yn y dyfodol: Posibilrwydd o wneud rheoliadau dan Fil Addysg (Cymru) 2013 – gweler y wybodaeth ar dudalennau 10–11.</p>

Mater dan sylw	Cam gweithredu
<p>Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch (CALU)</p> <p>Mae'r cynllun CALU wedi bod ar waith am saith mlynedd erbyn hyn, ac mae dros 1,800 o Gynorthwyr Addysgu wedi llwyddo i ennill statws CALU. Mae'r cynllun yn gweithio mewn partneriaeth â chonsortia lleol, drwy asesu portffolio o dystiolaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr i weld a ydynt yn bodloni safonau CALU.</p> <p>Mae'r cynllun wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ganfod Cynorthwyr Addysgu hynod fedrus a phrofiadol sydd â'r gallu i gyflawni rolau â mwy o gyfrifoldeb ar gyfer cefnogi dysgu a gweithredu fel rheolwr llinell ar gyfer staff cymorth eraill. Mae hyn, yn ei dro, yn rhyddhau athrawon i ganolbwyntio ar eu rôl graidd o arwain yr addysgu a'r dysgu.</p>	<p>Gan fod y cynllun wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn bellach, mae swyddogion wedi cynnal adolygiad cryno/sydyn o'r cynllun i wneud yn siŵr ei fod yn parhau i gyflawni'r nodau a fwriadwyd, yn ogystal ag ystyried sut y gallai'r profiad a'r wybodaeth a geir drwy ennill statws CALU arwain at hyfforddiant a datblygu pellach, e.e. ymgymryd â hyfforddiant athrawon drwy achredu safonau CALU.</p> <p>Amserlen: Medi 2013</p> <p>Rhagor o waith, gan gynnwys ymgysylltu â'r sector erbyn mis Rhagfyr 2013.</p>
<p>Ymsefydlu i weithio mewn ysgolion</p> <p>Gall rhaglen ymsefydlu dda fod o fudd i'r ysgol a'r ymarferydd.</p> <p>Mae angen bod yn eglur am yr hyn a ddisgwylir gan staff cymorth, a'u lle a'u rôl yn y gwaith ehangach o wella'r ysgol, fel gydag unrhyw ymarferwyr eraill.</p>	<p>Fel rhan o'r gwaith i gyflwyno'r broses Ymarfer, Adolygu a Datblygu i'r gweithlu ysgolion, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp bach o ymarferwyr i lunio canllawiau y gellid eu rhoi ar wefan Dysgu Cymru sy'n nodi arfer gorau ar gyfer staff cymorth cyn ac wrth iddynt ddechrau gweithio mewn ysgol. Dylai'r canllawiau hyn helpu i sicrhau canlyniadau ar gyfer staff cymorth drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod yn fwy effeithiol yn eu rôl • canfod blaenoriaethau ar gyfer datblygu proffesiynol yn gynnar • hybu perthnasoedd mwy effeithiol a chyson â dysgwyr; gallai hefyd helpu i godi safonau o ran ymddygiad a chyrraedd y dysgwr • cael yr un negeseuon cadarnhaol a chyson am yr ysgol, ei gwerthoedd a'i pholisïau. Mae'r cysondeb hwn yn lleihau'r posibilrwydd o gamddeall gweithdrefnau a phrotocolau'r ysgol a'u torri • cryfhau morâl, gan fod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Mater dan sylw	Cam gweithredu
	<p>Bydd llunio'r canllawiau hyn yn cryfhau ac yn cefnogi datblygiad y rheiny sy'n dechrau mewn swyddi newydd mewn ysgolion.</p> <p>Amserlen: Tachwedd 2013</p> <p>Gweithredu yn y dyfodol: Posibilrwydd o wneud rheoliadau dan Fil Addysg (Cymru) 2013 – gweler y wybodaeth ar dudalennau 10–11.</p>
<p>Rheoli perfformiad staff cymorth</p> <p>Gall rhoi trefn rheoli perfformiad ffurfiol ar waith ddarparu cyfleoedd i roi cydnabyddiaeth ffurfiol i'r cyfraniad mae staff cymorth yn ei wneud i waith yr ysgol, cymharu eu perfformiad â'r safonau galwedigaethol neu broffesiynol perthnasol a thrwy hynny ddarparu dull mwy cyson o bennu blaenoriaethau o ran datblygiad proffesiynol.</p>	<p>Mae'r model newydd sydd ar gael fel enghraifft o bolisi rheoli perfformiad i athrawon, eisoes yn glir o ran y ffaith ein bod yn ei ystyried yn arfer da i gynnwys holl staff ysgolion ym mholisiau perfformiad ysgolion. Bydd swyddogion yn paratoi canllawiau ar reoli perfformiad effeithiol ar gyfer staff cymorth ac yn parhau i annog ysgolion i gynnwys staff cymorth yn eu polisiau rheoli perfformiad.</p> <p>Amserlen: Tachwedd 2013</p> <p>Gweithredu yn y dyfodol: Posibilrwydd o wneud rheoliadau dan Fil Addysg (Cymru) 2013 – gweler y wybodaeth ar dudalennau 10–11.</p>
<p>DPP</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r broses Ymarfer, Adolygu a Datblygu fel dull o integreiddio safonau proffesiynol/galwedigaethol, rheoli perfformiad a DPP. Model a fwriadwyd i gael ei ddefnyddio ar gyfer holl weithlu'r ysgol yw hwn ac felly mae angen iddo gynnwys staff cymorth yn gyson er mwyn cysylltu datblygiad proffesiynol holl aelodau gweithlu'r ysgol â blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol.</p> <p>Ond, ar hyn o bryd, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael i helpu staff cymorth i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae'n bwysig helpu staff cymorth i ganfod ym mha feysydd y mae angen iddynt gael mwy o wybodaeth megis pynciau allweddol/mentrau'r llywodraeth a hyfforddiant. Gallai proses o'r fath hefyd fwydo i mewn i'r broses rheoli perfformiad flynyddol.</p>	<p>Mae ffrydiau ariannu, megis y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion, yn golygu y gall ysgolion dargedu datblygiad a hyfforddiant staff cymorth ochr yn ochr â staff eraill yr ysgol. Mater i benaethiaid yw penderfynu sut y gellid trefnu hyn i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol – a dyma pam rydym am gael ymagwedd ysgol gyfan tuag at ddatblygu staff sydd wedi'i nodi mewn rheoliadau ar gyfer cynlluniau datblygu ysgol er mwyn sicrhau dull cydlynol a thryloyw.</p> <p>1a. Rhaglen gefnogi genedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd</p> <p>Mae'r fanyleb ar gyfer y camau gweithredu a fydd yn ategu'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd Cenedlaethol yn ei gwneud yn glir y disgwyllir i'r contractwr ystyried hyfforddi a lleoli cynorthwywyr addysgu mewn ysgol er mwyn cryfhau dysgu yn y meysydd hyn ochr yn ochr ag athrawon. Bydd y contract ar gyfer y gwaith hwn yn dechrau ym mis Mawrth 2013 am gyfnod o dair blynedd.</p>

Mater dan sylw	Cam gweithredu
	<p>1b. Cymhwysedd yr ymarferwyr eu hunain mewn llythrennedd a rhifedd</p> <p>Fel rhan o'r ddarpariaeth DPP ar gyfer staff cymorth, bwriadwn hyrwyddo cyfleoedd i ymarferwyr unigol fynd i'r afael ag anghenion datblygu, a lefel eu llythrennedd a'u rhifedd eu hunain, fel bod perthynas uniongyrchol rhwng eu cymhwysedd a chefnogi cynnydd dysgwyr. Bydd y rhaglen hunanasesu isod o gymorth i ganfod yr ymarferwyr hynny fyddai'n cael y budd mwyaf o'r ddarpariaeth hon.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd staff cymorth hefyd yn gallu cael mwy o gymorth drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru i ddatblygu eu sgiliau hanfodol a thrwy hynny rhoi hwb i'w sgiliau a'u cymwysterau eu hunain. Mae rhwydwaith darparwyr eisoes ar gael sy'n gallu cefnogi gweithgaredd o'r fath.</p> <p>2. Rhaglen hunanasesu ar-lein</p> <p>Bwriadwn ddatblygu system ar-lein a fydd yn galluogi cynorthwyrwyr addysgu i ganfod pa anghenion sydd ganddynt o ran gwella eu dealltwriaeth a'u sgiliau mewn meysydd allweddol i gefnogi eu gwaith. Byddai hyn yn cael ei gysoni â phroffiliau swyddi'r Cydgyngor Cenedlaethol.</p> <p>Ar ôl cyflawni'r asesiad, cyfeirir staff at adnoddau, erthyglau a chanllawiau pellach sy'n gysylltiedig â chanlyniad eu hasesiad a'r anghenion penodol sydd wedi dod i'r amlwg.</p> <p>Gallai prif feysydd yr asesiad fod yn gysylltiedig â meysydd fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr • datblygiad plant a phobl ifanc • diogelu a hyrwyddo lles y plentyn • cynorthwyo â phontio • gwaith amlasiantaeth • rhannu gwybodaeth • pwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd i blant a phobl ifanc.

Mater dan sylw	Cam gweithredu
	<p>Y system ar-lein a deunyddiau ategol i'w lansio erbyn Ionawr 2014.</p> <p>Cyn gynted ag y cwblheir yr ail gam, bydd angen inni ystyried sut y gellid defnyddio'r system hon i ymgysylltu â grŵp ehangach o staff cymorth, e.e. rheolwyr busnes.</p> <p>3. Cymunedau dysgu proffesiynol (CDP) Menter gymharol newydd yw CDP. Bwriadwyd hi i hybu datblygu a dysgu cydweithredol rhwng gweithwyr ysgol proffesiynol. Mae CDP yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder i bawb sy'n ymwneud â gwella safonau addysgu a dysgu a defnyddio deunyddiau adnodd o ansawdd uchel i gefnogi ac i ategu gweithgareddau. Gall pobl mewn ac ar draws ysgolion ddod yn aelodau ac mae'r gwaith hyrwyddo wedi canolbwyntio hyd yma ar athrawon a phenaethiaid. Byddwn yn defnyddio gwerthusiadau o CDP i ganfod yr ysgolion hynny lle mae staff cymorth wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus fel rhan o CDP yr ysgol. Byddwn yn defnyddio'r enghreifftiau hyn i annog mabwysiadu'r arfer da hwn ar raddfa ehangach.</p> <p>4. Adnoddau i gefnogi DPP Mae modd cael gafael ar ystod o ddeunyddiau adnodd o safon uchel sy'n berthnasol i DPP staff cymorth yn ogystal ag athrawon drwy wefan Dysgu Cymru. Mae'r dewis o adnoddau yn cael ei ehangu'n barhaus a byddwn yn ystyried sut y gellir gwella'r ddarpariaeth i gefnogi gweithgareddau DPP staff cymorth yn well.</p> <p>5. Yr iaith Gymraeg Mae'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg yn cynnig cwrs pum wythnos ar Lefel mynediad i ymarferwyr cynradd sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng-Saesneg er mwyn rhoi'r eirfa a'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol iddynt. Cynigir yr hyfforddiant hwn mewn chwe lleoliad ledled Cymru a bwriedir iddo fod ar waith tan haf 2014.</p>

Mater dan sylw	Cam gweithredu
<p>Bil Addysg (Cymru) 2013</p> <p>Mae'r Bil yn rhoi cyfle, am y tro cyntaf, i chwalu'r rhwystrau i gydweithio a symudedd ymysg gweithlu'r byd addysg drwy ei gwneud yn ofynnol bod athrawon mewn ysgolion, gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, athrawon addysg bellach a gweithwyr cymorth dysgu ym maes addysg bellach yn cofrestru â'r corff diwygiedig. Bydd hyn yn sefydlu un system gydlynol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach.</p> <p>Bydd y Bil yn golygu y byddwn yn gallu sicrhau bod pob ymarferydd addysg yn gallu cael gafael ar gefnogaeth a gwasanaeth datblygu sydd wedi'i gynllunio'n dda.</p> <p>Mae'r Bil hefyd yn cynnig bod Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer gwneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer ymsefydlu ac arfarnu, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i'r gweithlu y maent yn cael eu datblygu ar eu cyfer. Mae'r cynnig hwn hefyd yn sicrhau'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion heriol y gweithlu addysg yn awr ac yn y dyfodol ac i wneud yn siŵr bod trefniadau yn bodloni amryfal ofynion y gweithlu ehangach.</p> <p>Mae pŵer gwneud rheoliadau eisoes yn bodoli ar gyfer sefydlu cymwysterau i gynorthwywyr addysgu a dysgu.</p> <p>Cyflwynir y Bil er ystyriaeth y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2013. Os cytunir arno, bydd gwaith newydd y corff ar ei newydd wedd – a'i dasg gyntaf fydd cofrestru grwpiau allweddol – yn dechrau ym mis Ebrill 2015.</p> <p>Ymgymerir â gwaith pellach i ddatblygu, ymgysylltu ac ymgynghori ar y meysydd a nodir isod fesul cam.</p>	<p>Mae'r Bil a gyflwynwyd yn cynnwys cynigion bod Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i ymgynghori ac i gyhoeddi set o safonau ar gyfer y grŵp hwn ochr yn ochr â grwpiau eraill a fydd yn gorfod cofrestru fel rhan o'r gweithlu ehangach.</p>

Mater dan sylw	Cam gweithredu
<p>Cymwysterau a safonau</p> <p>Ymsefydlu i ysgolion</p> <p>Rheoli perfformiad</p> <p>Data gweithlu</p> <p>Yn hanesyddol, ychydig o wybodaeth sydd wedi cael ei chasglu am staff cymorth sy'n ffurfio cyfran sylweddol o'r gweithlu mewn ysgolion. Mae hyn yn golygu nad oes fawr o wybodaeth am eu rolau presennol, y lefelau cyflog a'u cymwysterau a'u hanghenion datblygu, i lywio ymyriadau a datblygiadau polisi.</p>	<p>Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno darpariaeth i roi'r hawl i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau (ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid), bennu cymwysterau angenrheidiol neu ofynion sylfaenol o ran cymwysterau er mwyn i'r gweithlu addysg gofrestru, a bydd hyn yn cynnwys staff cymorth.</p> <p>Cyhoeddir canllaw ymsefydlu i ysgolion a ddylai fod o gymorth i ysgolion wrth lunio rhestr gynhwysfawr o ofynion y dylai staff cymorth fod yn ymwybodol ohonynt ac y dylent eu defnyddio wrth ddechrau swydd newydd mewn ysgol.</p> <p>Mae'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau sy'n rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer ymsefydlu'r holl staff y mae disgwyl iddynt gofrestru o dan y Bil. Bydd y rheoliadau yn galw am ymgynghori ac ymgysylltu manwl i sicrhau bod unrhyw reoliadau a gaiff eu cyflwyno yn addas i'r diben.</p> <p>Fel rydym wedi'i nodi, gall rhoi trefniant rheoli perfformiad ffurfiol ar waith ddarparu cyfleoedd i roi cydnabyddiaeth ffurfiol i gyfraniad staff cymorth i waith yr ysgol.</p> <p>O fewn y cynigion sydd yn y Bil, bydd Gweinidogion yn gallu cyflwyno gofyniad, drwy reoliad, bod staff cymorth yn ymgymryd â phroses rheoli perfformiad gyda'u rheolwyr llinell.</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar gwmpas y wybodaeth a gesglir gan y corff cofrestru – fel ein bod yn gallu defnyddio'r data i ddatblygu ymdriniaethau polisi a mesur cynnydd yn erbyn nodau'r cynllun hwn.</p> <p>Wrth ddatblygu'r gofrestr, byddwn yn ystyried sut gallwn gyfathrebu'n well â staff cymorth er mwyn inni allu rhoi gwybod iddynt am y newidiadau a'r materion sy'n effeithio arnynt.</p>